

O ddiddordeb hefyd: Y Cyngor Gwyddoniaeth

Gweithgor y Cyngor Gwyddoniaeth ar Dechnoleg Ddigidol a Defnyddio Data

Sefydlwyd [Cyngor Gwyddoniaeth](#) yr ASB yn 2017 i gynnis cyngor a her strategol annibynnol ar y ffordd y mae'r ASB yn defnyddio gwyddoniaeth.

Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor Weithgor sy'n mynd i'r afael â'r 4 cwestiwn allweddol canlynol ar ddefnyddio data a thechnoleg ddigidol:

1. Dros y 2 i 5 mlynedd nesaf, beth fydd yr adnoddau, y technegau a'r technolegau data newydd a fydd yn debygol o gael yr effaith fwyaf ar genhadaeth yr ASB, gan gynnwys ar gyfer ei rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol, a pha werth y gallai'r rhain ei ychwanegu?
2. Ble a sut y gallai'r ASB elwa ar addasu ei phrosesau casglu data? Beth yw manteision disgwyliedig unrhyw newidiadau?
3. Beth yw'r goblygiadau allweddol i'r ASB o ran datblygiadau mewn data agored, rhannu data a sut y dylai'r Asiantaeth fynd ati i'w defnyddio (gan gynnwys data preifat / diwydiant)?
4. Sut gall yr ASB sicrhau ei bod yn mabwysiadu'r mesurau rheoli a

llywodraethu cywir mewn perthynas â data? Bydd hyn yn cael ei lywio gan adolygiad o fesurau llywodraethu data a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol ar gyfer defnyddio data wrth wneud penderfyniadau (gan gynnwys rhag-ddatgelu a rhagdybio mewn perthynas â dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial) ac, yn gysylltiedig â hyn, y defnydd moesegol o ddata.

Caiff y Gweithgor ei arwain gan yr Athro Patrick Wolfe, sy'n aelod o'r Cyngor Gwyddoniaeth a Frederick L. Hovde, Deon Gwyddoniaeth ym Mhrifysgol Purdue. Yn un o gyfarfodydd diweddar y Cyngor Gwyddoniaeth, eglurodd yr Athro Wolfe:

“Mae data yn bwnc hollbwysig i'r ASB ac mae wir yn sail i'r gwaith pwysig y mae'r Asiantaeth yn ei wneud. Bydd deall sut i fanteisio ar y data sydd gan yr ASB yn helpu'r sefydliad i wireddu crefft yr hyn sy'n bosibl o ran arloesi mewn technoleg, ac i gynhyrchu strategaeth a fydd yn cyflwyno manteision technolegau data yn uniongyrchol i'r defnyddiwr.”



Yr Athro Patrick Wolfe

Rhestr o dermau

SQL Iaith Ymholiadau Strwythuredig
 OS System Weithredu
 S3 Gwasanaeth Storio Symbl
 RDF Fframwaith Disgrifio Adnoddau
 NiFi Apache NiFi

Diolchiadau

Gyda diolch am y cyfraniadau gan Julie Pierce, Siân Thomas, Adam Locker, Lucy Knight, Jesús Alvarez-Pinera a Suzanne Fox.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i food.gov.uk/cy



Cofiwch gadw mewn cysylltiad drwy
facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd



Ymunwch â'n sgwrs [@dfsacymru](https://twitter.com/dfsacymru) [@dfsawales](https://twitter.com/dfsawales)



Gwylwch ein fideos food.gov.uk/youtube